Cyllid & Thollau EM

# Stociau a chyfranddaliadau wedi'u rhestru

Atodlen IHT411

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon i roi gwybod i ni am unrhyw stociau, gwarantau Llywodraeth y DU, gwarantau bwrdeisiol a chyfranddaliadau wedi'u rhestru a oedd yn eiddo i'r ymadawedig. Rydym yn rhoi manylion sut i brisio stociau a chyfranddaliadau yn Nodiadau IHT400.

Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfranddaliadau na gwarantau:

- wedi'u rhestru ar farchnadoedd nid yw Cyllid a Thollau EM yn cydnabod eu bod 'wedi'u rhestru', am fwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/designated-recognised-stock-exchanges-section-1005-income-tax-act-2007
- mewn Cwmni Cyfyngedig Preifat, mewn Cynllun Ehangu Busnes (BES) neu mewn Cynllun Dechrau Busnes (BSS)
- wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig lle'r oedd gan yr ymadawedig reolaeth dros y cwmni

Dylid rhestru'r rhain ar Atodlen IHT412, Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrir, a daliadau sy'n rhoi rheolaeth.

Os oes gennych werthiant brocer stoc neu os ydych wedi llenwi ffurflen rhestr C1 (yr Alban yn unig) dim ond copïo'r cyfansymiau draw i'r ffurflen ar gyfer pob categori o gyfran sydd angen i chi ei wneud ac amgáu copi o'r prisiad.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw ddifidendau a llog ar y stociau a'r cyfranddaliadau a oedd yn ddyledus ar ddyddiad y farwolaeth ond sydd heb gael eu talu hyd yma. Yn Nodiadau IHT400 rydym yn esbonio'r gwahanol fathau o ddifidendau, a beth i'w gynnwys.

Enw'r ymadawedig

Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB

Cyfeirnod Treth Etifeddiant os yn hysbys

## Help

Darllenwch y nodiadau arweiniol ar gyfer ffurflen IHT412 yn y ddogfen IHT400 Nodiadau, cyn llenwi'r ffurflen hon. I gael rhagor o wybodaeth neu help, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i www.gov.uk/inheritance-tax
- ffoniwch ein llinell gymorth ar 0300 200 1900 – os ydych chi'n ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900

## Gwarantau Llywodraeth y DU a gwarantau bwrdeisiol

Rhestrwch yma unrhyw warantau llywodraeth y DU roedd yr ymadawedig yn eu cadw. Er enghraifft, Stoc y Trysorlys, Benthyciad Rhyfel ac unrhyw stoc arall a gedwir ar gofrestr Banc Lloegr. Hefyd mae unrhyw warantau bwrdeisiol, morgeisi, dyledebau a stoc a gedwir mewn gwledydd, dinasoedd a threfi, dociau, porthladdoedd a byrddau dŵr. Dylid rhestru unrhyw stoc fwrdeisiol o Ogledd Iwerddon yma hefyd.

1

| Disgrifiad o'r stoc (er enghraifft, Benthyciad Rhyfel 3.5%) | Faint o stoc a gedwir | Pris y farchnad fesul uned ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfanswm gwerth y stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Llog sy'n ddyledus tan ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | Cyfansymiau 1 | £ 0.00 | £ 0.00 |
| | | | Cyfanswm y golofn uchod – copïwch y swm hwn draw i ffurflen IHT400, blwch 62 | Cyfanswm y golofn uchod – dylech gynnwys y swm hwn ar ffurflen IHT400, blwch 64 |

## Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau wedi'u rhestru nad oeddent yn rhoi rheolaeth dros y cwmni i'r ymadawedig

Rhestrwch yma unrhyw stociau, cyfranddaliadau, dyledebau neu warantau eraill a ddelir sydd wedi'u rhestru ar Restr Swyddogol Ddyddiol y Gyfnewidfa Stoc. Dylech gynnwys unrhyw:

- gyfranddaliadau a gedwir mewn Cyfrif Cynilo Unigol (ISA) (dylech gynnwys ffigur ar gyfer unrhyw arian heb ei fuddsoddi ond nid ar gyfer unrhyw arian parod neu bolisïau yswiriant eraill)
- ymddiriedolaethau uned (rhowch yr enw llawn, er enghraifft, Axa Equity and Law Unit Trust Managers, Pacific Basin Trust Accumulation Units)
- ymddiriedolaethau buddsoddi
- daliannau mewn Cwmnïau Buddsoddi Penagored (OEICs)
- cyfranddaliadau tramor, ond dim ond os ydyn nhw wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain neu gyfnewidiadau eraill y DU

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw un o'r mathau hyn o gyfranddaliadau a oedd yn rhoi rheolaeth dros y cwmni iddo, dylech eu rhestru ym mlwch 4 ar Atodlen IHT412, Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrir, a daliadau sy'n rhoi rheolaeth, yn hytrach nag yma. Bydd hyn yn eithriadol o brin.

**2**

| Enw'r cwmni, a'r math o gyfranddaliadau neu stoc, neu enw llawn ymddiriedolaeth unedol a math o uned | Faint o stoc a gedwir | Pris y farchnad fesul uned ar ddyddiad y farwolaeth £ | Cyfanswm gwerth y stoc ar ddyddiad y farwolaeth £ | Difidend neu log sy'n ddyledus hyd at ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | Cyfansymiau **2** | £ 0.00 | £ 0.00 |
| | | | Cyfanswm y golofn uchod - copïwch y swm hwn draw i ffurflen IHT400, blwch 63 | Cyfanswm y golofn uchod - dylech gynnwys y swm hwn ar ffurflen IHT400, blwch 64 |